# PRENTISIAETH SYLFAEN LEFEL 2 AAT MEWN CYFRIFEG




**Mae'r cymhwyster hwn yn darparu sylfaen gadarn mewn gweinyddu cyllid a sgiliau cyfrifeg graidd, gan gynnwys cadw cyfrifon cofnod dwbl, costau sylfaenol a dealltwriaeth o gyfriflyfrau prynu, gwerthiannau a chyffredinol.**

## Cyflwyno'r Cwrs

Mae'r cymhwyster AAT yn cael ei ddarparu'n llawn ar-lein trwy ein partner Peak Accountancy Training naill ai trwy **"Sesiynau Byw"** wythnosol neu trwy sesiynau wedi'u recordio ymlaen llaw **"Sesiynau Sylfaenol Ar-lein".**

Mae'r **"Sesiynau Byw"** yn cael eu cynnal ar amserlen benodol trwy gydol y flwyddyn ar gyfer pob modiwl. Mae sesiynau yn para tua 3 awr bob wythnos nes bod y gwaith cwrs wedi'i gwblhau. Byddant yn eich galluogi chi i gymryd rhan mewn gwersi wrth iddynt ddigwydd a gofyn cwestiynau. Os ydych chi'n dewis y sesiynau wedi'u recordio ymlaen llaw **(Sesiynau Sylfaenol Ar-lein)** gallwch gael mynediad i'r sesiynau ar adeg sy'n gyfleus i chi.

Mae'r **"Sesiynau Sylfaenol Ar-lein"** yn gynnwys fideos byr wedi'u recordio a byddwch hefyd yn derbyn adnoddau papur i fynd gyda nhw i'w defnyddio gyda'i gilydd. Byddwch yn gallu cael cefnogaeth un i un.

Gallwch ddilyn cymysgedd o **"Sesiynau Byw"** yn ogystal â **"Sesiynau Sylfaenol"** yn ôl eich anghenion.

Hyfforddiant Cambrian bydd eich arweinydd ar gyfer archebu a gwybodaeth logistaidd a Peak Accountancy bydd eich cefnogaeth ar gyfer yr holl wybodaeth AAT a gwaith cwrs.

Bydd angen i chi fynychu canolfan brofi AAT i sefyll eich asesiadau uned ar gyfer pob uned.

## Gofynion Mynediad

Rhaid i chi gael eich cyflogi yng Nghymru am o leiaf 16 awr yr wythnos mewn rôl ariannol.

**Hyd y rhaglen yw 12 mis.**

**Nodyn - Nid yw ffioedd cofrestru ac arholiadau AAT wedi'u cynnwys yn y cyllid a bydd angen i chi neu eich cyflogwr dalu'r costau hyn.**

## Tystysgrif Lefel 2 AAT mewn Cyfrifeg

### Cyflwyniad i Gadw Cyfrifon

Mae'r uned hon yn darparu dealltwriaeth o systemau cadw cyfrifon â llaw a digidol, gan gynnwys y dogfennau a'r prosesau cysylltiedig. Bydd myfyrwyr yn dysgu egwyddorion sylfaenol systemau cadw cyfrifon cofnod dwbl.

### Egwyddorion Rheolaethau Cadw Cyfrifon

Mae'r uned hon yn archwilio cyfrifon rheoli, cyfnodolion a chysoni. Bydd myfyrwyr yn datblygu'r gallu i baratoi'r cyfrifon rheoli Treth ar Werth (TAW) yn ogystal â chyfrifon cyffredinol symiau derbyniadwy a thaladwy. Byddent yn defnyddio'r dyddlyfrau i gofnodi amrywiaeth o drafodion, gan gynnwys cywiro gwallau. Bydd myfyrwyr yn gallu ailddrafftio'r gweddill prawf cychwynnol, ar ôl addasiadau.

### Egwyddorion Costio

Mae'r uned hon yn cyflwyno egwyddorion costio sylfaenol ac yn adeiladu sylfaen gadarn yn y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer tasgau costio a chyfrifeg rheoli fwy cymhleth.

Bydd myfyrwyr yn dysgu pwysigrwydd system costio fel ffynhonnell wybodaeth sy'n caniatáu i reolwyr gynllunio, gwneud penderfyniadau a rheoli costau.

### Yr Amgylchedd Busnes

Mae'r uned hon yn darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau busnes allweddol a'u cymhwysiad ymarferol yn yr amgylchedd gwaith allanol a mewnol. Bydd myfyrwyr yn cael dealltwriaeth o system gyfreithiol ac egwyddorion cyfraith contractau a gwerthfawrogiad o oblygiadau cyfreithiol o sefydlu busnes a'r canlyniadau y gall hyn eu cael. Bydd yr uned hon hefyd yn rhoi dealltwriaeth o sut mae sefydliadau wedi'u strwythuro a lle mae'r swyddogaeth ariannol yn ffitio.

### Sgiliau Hanfodol

Os nad yw prentis eisoes wedi cyflawni TGAU Gradd A*-C (neu gyfwerth) mewn Mathemateg neu A-G mewn Saesneg bydd disgwyl iddynt weithio tuag at ein rhaglen Sgiliau Hanfodol. Mae cyflogwyr yn ystyried y sgiliau hyn yn hanfodol a thrwy ennill y cymhwyster hwn, mae prentisiaid yn dangos eu bod yn gallu eu defnyddio mewn sefyllfaoedd gwaith.

- Cymhwyso Rhif Lefel 2
- Cyfathrebu Lefel 1